



Tachwedd 2021

Annwyl Riant,

### Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr

Caiff y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ei arwain gan Brifysgol Caerdydd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cancer Research UK. Bob dwy flynedd, gwahoddir ysgolion y Rhwydwaith i gymryd rhan mewn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr. Caiff y wybodaeth a gesglir yn yr arolwg ei defnyddio i lunio Adroddiad Iechyd a Lles Myfyrwyr ar gyfer pob ysgol, sy'n cefnogi eu gwaith i wella iechyd a lles eu myfyrwyr.

Mae ysgol eich plentyn yn cymryd rhan yn yr Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr ym mis Rhagfyr. Caiff yr arolwg ei reoli gan Ipsos MORI ar ran Prifysgol Caerdydd a chaiff ei gwblhau ar-lein dan oruchwyliaeth aelod o staff yr ysgol. Mae'n cynnwys cwestiynau am ymddygiad iechyd, gweithgarwch corfforol, ysmegu, alcohol, cyffuriau, bywyd ysgol a pherthnasoedd. Gofynnir nifer fach o gwestiynau i fyfyrwyr Blwyddyn 10 ac uwch ynghylch ymddygiad rhywiol. Gall pob myfyriwr ddewis a ydyn nhw eisiau cwblhau'r arolwg ai peidio, a gallan nhw beidio ag ateb unrhyw gwestiwn nad ydyn nhw eisiau ei ateb.

Ar ddiwedd yr arolwg gofynnir i fyfyrwyr ddarparu eu henwau, eu dyddiad geni a'u cod post. Mae hyn yn galluogi ymchwilwyr i gysylltu ymatebion myfyrwyr ar draws rowndiau gwahanol o'r arolwg a gynhelir bob dwy flynedd, er mwyn ymchwilio i sut a pham mae iechyd a lles yn newid yn ystod y llencyndod. Rhoddir gwybod i'r myfyrwyr nad oes rhaid iddyn nhw ddarparu'r wybodaeth hon os nad ydynt yn dymuno ac, os byddant yn ei rhoi, nifer fach o ymchwilwyr yn unig ym Mhrifysgol Caerdydd ac Ipsos MORI fydd yn ei gweld.

Gofynnir i'r myfyrwyr hefyd a all yr ymchwilwyr ddefnyddio eu hatebion i'r arolwg ar gyfer ymchwil cyswllt data, sy'n golygu y caiff eu hatebion eu cysylltu'n ddiennw â data arall sy'n cael ei gasglu amdanyn nhw fel arfer, e.e. cofnodion addysg, a byddant yn cael eu cadw a'u hadrodd yn ddiennw. Bydd yr ysgol yn dangos fideo i'r myfyrwyr am hyn, y gallwch ei weld yma: [www.shrn.org.uk/cy/gdpr](http://www.shrn.org.uk/cy/gdpr) ynghyd â rhagor o wybodaeth am gyswllt data. Os na allwch gael mynediad i'r fideo neu'r wefan, cysylltwch â Matt Davies ar [shrn@caerdydd.ac.uk](mailto:shrn@caerdydd.ac.uk) neu 029 2087 4433 i wneud cais am daflen. Gall eich plentyn ddweud nad yw eisiau i'w atebion gael eu defnyddio ar gyfer cyswllt data, os nad yw'n dymuno.

Bydd yr holl ddata'n cael ei drin yn unol â'r Data Protection Act (2018) ac Rheolai Cyffredinol am Ddiogelu Data, a gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd data yma: [www.shrn.org.uk/cy/gdpr/](http://www.shrn.org.uk/cy/gdpr/). Mae'r arolwg yn hollol gyfrinachol, oni bai bod ymateb myfyriwr yn codi pryderon ynghylch ei les. Yn yr achos hwn, byddwn ni'n hysbysu swyddog diogelu'r ysgol os oes gennym enw'r myfyriwr. Bydd Prifysgol Caerdydd yn defnyddio data'r arolwg i lunio Adroddiadau Iechyd a Lles Myfyrwyr, ac ar gyfer ymchwil i iechyd pobl ifanc. Mae'r Adroddiadau Iechyd a Lles Myfyrwyr yn cynnwys data cyfansymiol yn unig e.e. canran bechgyn blwyddyn 7 sy'n bwyta brecwast bob dydd.

Gobeithiaf y byddwch yn hapus i'ch plentyn gymryd rhan. Os ydych yn bryderus am unrhyw beth, os ydych am weld cwestiynau'r arolwg neu dynnu eich plentyn yn ôl o'r arolwg neu'r ymchwil cyswllt data, rhowch wybod i dderbynfa'r ysgol cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

Yr Athro Simon Murphy

Partneriaeth yw Rhydwaith Ymchwil Ysgolion Iach rhwng Llywodraeth Cymru, Ymchwil Canser y DU, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Caerdydd, DECIPHer ac WISERD

The School Health Research Network is a partnership between Welsh Government, Cancer Research UK, Public Health Wales, Cardiff University, DECIPHer and WISERD